Hawdd ei ddeall: Ein prosiect i edrych ar ofal cartref yng Nghymru

Ni yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (hefyd yn cael ei hadnabod fel AGGCC).

Rydyn ni'n yn gwirio gwasanaethau gofal ledled Cymru i sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio.

Mae rhai pobl yng Nghymru yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Yr enw ar hyn yw gofal cartref.

Rydyn ni wedi rhoi dechrau prosiect i weld a yw gofal cartref yng Nghymru yn dda, a sut y gallai pethau fod yn well.

Os ydych chi'n derbyn gofal yn eich cartref eich hun sy'n cael ei ddarparu gan rywun tu allan i'ch teulu, hoffem glywed gennych.

Rydyn ni hefyd am siarad â chynghorau Cymru sy'n trefnu gofal cartref i bobl.

Rydyn ni am siarad â phobl sy'n cael eu talu i ddarparu gofal cartref i eraill.

Bydd ein prosiect yn edrych ar:

- Sut mae gwasanaethau gofal cartref yn cael eu trefnu gan gynghorau lleol a byrddau iechyd

- Sut mae gwasanaethau gofal cartref yn sicrhau bod y bobl iawn yn derbyn y gofal iawn
- Pa mor dda yw'r gofal
- Os yw'r gweithwyr yn hapus ac yn derbyn cyflog da ac amodau da
- Pa broblemau sy'n wynebu'r gweithwyr
- Sut mae rheolwyr yn gwirio a yw'r gofal yn dda neu a yw'n iawn i bobl.

Rydyn ni am ddeall beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallwn ei wella.

Yn Ebrill 2016 byddwn yn llunio adroddiad ar ein canfyddiadau. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Byddwn ni'n rhoi cyngor i bobl sy'n trefnu gwasanaethau gofal.

Byddwn ni hefyd yn llunio rhestr o'r pethau i'w gwella ac yn ei hanfon at Lywodraeth Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am ein prosiect ar ein gwefan www.aggcc.org.uk